## Defnyddio Gwybodaeth Cyswllt mewn Argyfwng Myfyrwyr

1 Wrth gofrestru ar gyfer cwrs, gofynnir i bob myfyriwr nodi'n wirfoddol fanylion cyswllt mewn argyfwng. Cedwir y wybodaeth hon ar sail 'budd cyfreithlon' yn unol â deddfwriaeth diogelu data ar system cofnodion myfyrwyr y Brifysgol.

2 Gofynnir i fyfyrwyr ddiweddaru'r manylion hyn a gallant newid y manylion hyn a manylion personol eraill ar unrhyw adeg drwy fewngofnodi i'w cofnod myfyriwr.

3 Gall myfyrwyr enwebu unrhyw un o'u dewis i fod yn gyswllt mewn argyfwng – nid oes yn rhaid dewis eu perthynas agosaf cyfreithiol. Dylai myfyrwyr sicrhau bod y cyswllt mewn argyfwng yn barod i weithredu fel cyswllt mewn argyfwng ac wedi caniatáu i'w fanylion cyswllt gael eu rhoi i'r Brifysgol a'u defnyddio yn unol â'r polisi hwn.

4 Ni fydd cysylltiadau mewn argyfwng fel arfer yn derbyn y manylion diweddaraf am gynnydd academaidd neu unrhyw agwedd arall ar fywyd y myfyriwr yn y Brifysgol. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y defnyddir y manylion cyswllt, er enghraifft os bydd pryder brys neu sylweddol i iechyd a diogelwch y myfyriwr. Mae'r enghreifftiau o amgylchiadau pan ellir penderfynu defnyddio manylion cyswllt mewn argyfwng yn cynnwys, ond heb fod wedi'u cyfyngu i:

- fyfyriwr yn cael ei dderbyn i ysbyty (DS. Nid yw'r Brifysgol bob amser yn gwybod bod myfyriwr wedi ei dderbyn i ysbyty)
- pryderon difrifol ynglŷn ag iechyd a lles corfforol neu feddyliol myfyriwr
- myfyriwr 'ar goll'
- marwolaeth myfyriwr

5 Ni fydd y Brifysgol, fel arfer, yn cysylltu â'r cyswllt mewn argyfwng yn uniongyrchol ond yn trosglwyddo'r manylion i'r gwasanaeth statudol priodol a fydd yn penderfynu a ddylid cysylltu â'r cyswllt mewn argyfwng ai peidio.

6 Lle bo'n bosibl, bydd y Brifysgol yn holi am ganiatâd y myfyriwr cyn trosglwyddo manylion y cyswllt i'r gwasanaethau statudol. Oni bydd yn bosibl sicrhau caniatâd (e.e. oherwydd bod y myfyriwr yn analluog neu'n anymwybodol) neu os gwrthodir rhoi caniatâd, mewn amgylchiadau eithriadol iawn gall y Brifysgol wneud penderfyniad i ryddhau manylion y cyswllt mewn argyfwng beth bynnag.

7 Os bydd aelod staff o'r farn fod angen cysylltu â chyswllt mewn argyfwng myfyriwr oherwydd bod y sefyllfa mor bryderus, dylid trafod yr achos yn y lle cyntaf â Phennaeth y Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr a Gyrfaoedd. Pennaeth y Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr a Gyrfaoedd, neu ei (d)dirprwy, fydd yn penderfynu a ddylid rhyddhau'r manylion cyswllt i'r gwasanaethau statudol ym mhob achos lle ystyrir bod angen cysylltu â chyswllt mewn argyfwng heb sicrhau caniatâd.

8 Pennaeth y Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr a Gyrfaoedd neu ei (d)dirprwy fydd yn cysylltu'n bersonol â'r gwasanaethau statudol, onid awdurdodir fel arall.

9 I fyfyrwyr dan ddeunaw oed, efallai fydd y Brifysgol, mewn rhai amgylchiadau, yn gorfod cysylltu â rhiant/gwarcheidwad y myfyriwr yn uniongyrchol. Yn yr achos hwn, Pennaeth y Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr a Gyrfaoedd neu ei (d)irprwy fydd yn gwneud y penderfyniad.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Fersiwn: | 1.1 | Dyddiad Cyhoeddi: | Medi 2018 |
| Rheswm dros ddiweddaru: | Adolygu er mwyn diweddaru'r polisi yn unol ag ymarfer diwygiedig | | |
| Cymeradwywyd: | Pwyllgor Cymorth i Fyfyrwyr | Dyddiad dod i rym: | 24.9.18 |
| Rhanddeiliaid: | Y Gofrestrfa Academaidd, Cydymffurfiaeth Gwybodaeth | | |
| Cyswllt: | Caryl Davies, Pennaeth y Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr a Gyrfaoedd ccd@aber.ac.uk | | |